# LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU

# CYFRIFON BLYNYDDOL 2001/2002

## ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYNGOR

### Cefndir Statudol

Sefydlwyd Llyfrgell Genedlaethol Cymru trwy Ymgorfforiad Siarter Frenhinol dyddiedig 19 Mawrth 1907 (a Siarter Atodol yn cynnwys darpariaethau cyfansoddiadol a llywodraethol pellach ar 5 Medi 1911). Caniatawyd Siarter Atodol ychwanegol ar 27 Ebrill 1978. Yn ystod 2001/2002 fe'i hariannwyd yn bennaf o gymorthdaliadau'r Llywodraeth a ddarperir drwy'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Parotowyd y cyfrifon hyn yn unol a chyfarwyddyd a wnaed gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chytundeb y Trysorlys o dan Adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Mae copi o'r cyfarwyddyd ar gael oddi wrth y Cyfarwyddwr Cyllid.

Yn 2001/02 cwblhaodd y Llyfrgell ei had-drefnu mewnol a ffurfiwyd pedair adran newydd: Adran Gwasanaethau Casgliadau, Adran Gwasanaethau Cyhoeddus, Adran Gwasanaethau Corfforaethol ac Adran y Llyfrgellydd. Ni fydd yr ad-drefnu hwn yn golygu unrhyw newid polisi. Mae'n un o'r chwe llyfrgell adnau cyfreithiol yn y Deyrnas Gyfunol ac Iwerddon. Derbyniwyd y Llyfrgell gan Feistr y Rholiau ym 1926 yn lle cymwys i dderbyn a chadw cofysgrifau; i gadw Archifau'r Eglwys yng Nghymru, a dderbyniwyd ym 1934, a Chofysgrifau'r Eglwys yng Nghymru, a dderbyniwyd ym 1944; a thrwy orchymyn yr Adran Brofebu trosglwyddwyd y Cofysgrifau Profeb Eglwysig ym 1945. Fe'i dewiswyd, ym 1960, yn gadwrfa cofysgrifau arbennig o dan y Ddeddf Cofysgrifau Cyhoeddus, 1958. Mae Atodlen 4 Deddf Llywodraeth Cymru 1998 yn enwi Llyfrgell Genedlaethol Cymru fel corff n all ond ennill swyddogaethau a hynny dim ond gyda chydsyniad.

### Amcanion

Prif amcanion y Llyfrgell yw casglu, diogelu a chynnal deunydd llawysgrif a chofysgrif argraffedig, darluniadol a chlyweled sy'n ymwneud a phoblogaeth Cymru a'r Gwledydd Celtaidd, a deunyddiau i hyrwyddo addysg uwch ac ymchwil lenyddol a gwyddonol, yn unol ag Amcanion y Llyfrgell fel y'u nodir yn ei Siartrau Brenhinol.
Fe'u hystyrir yn ddiymwad ac maent yn cynnwys yn bennaf: llyfrau, llawysgrifau, mapiau, paentiadau, a deunydd sain a delweddau symudol a gasglwyd ers sefydlu'r Llyfrgell. Mae gan y Llyfrgell bellach dros 4,000,000 o eitemau yn ei chasgliad yn dyddio o'r 12$^{fed}$ ganrif. Mae'r casgliadau hyn ar agor i'r cyhoedd.

### Elusen

Mae'r Llyfrgell yn elusen gofrestredig, rhif elusen 525775, Rhif TAW 122 1209 32, dan enw Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Y cyfeiriad yw Penglais, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3BU.

### Treth Gorfforaeth

Mae'r Llyfrgell wedi'i heithrio rhag gorfod talu Treth Gorfforaeth dan adran 505 Deddf Trethi Incwm a Chorfforaeth 1988.

**Swyddogaethau Craidd**

Nodweddir gweithgareddau'r Llyfrgell gan raglenni gwaith parhaus yn hytrach na chan gynlluniau tymor byr. Mae'r swyddogaethau craidd isod yn cynrychioli'r gwaith cwbl hanfodol y mae'n rhaid i'r Llyfrgell ei wneud er mwyn cyflawni ei Siarter. Y rhain felly sy'n cyfansoddi busnes hanfodol a pharhaus y Llyfrgell. Ni ragwelir y bydd y swyddogaethau craidd hyn yn newid:

1. darparu gwasanaeth effeithiol ac amserol i ddefnyddwyr pell ac agos llawrestrau trwy gyfrwng gwasanaethau cludo ac ymholiadau a thrwy ddarparu catalogau a papur a rhai wedi'u hawtomeiddio.

2. casglu defnyddiau trwy adnau cyfreithiol, pryniant, rhodd, cymynrodd, cyfnewid ac adnau, yn unol a'r polisiau datbygu casglidau diffiniedig a lunnir yn unol a thelerau'r Siarter a phrosesu a storio'r defnyddiau a gesglir.

3. cadw a gwarchod defnyddiau yn y casgliadau.

4. dehongli a rhoi cyhoeddusrwydd i'r casgliadau trwy gyfrwng arweinlyfrau, cyhoeddiadau, llyfryddiaethau printiedig ac ar lein, arddangosfeydd, darlithoedd a thrwy unrhyw gyfrwng priodol arall, a chynhyrchu a chynnal y llyfryddiaeth genedlaethol.

5. gwneud cyfraniadau arbenigol a phroffesiynol a chydweithredu ar lefel Cymru, y Deyrnas Unedig ac ar lefel ryngwladol.

Ategir y swyddogaethau craidd hyn gan strwythurau rheolaeth priodol, rheolaeth ariannol effeithiol a rhaglenni hyfforddi a datblygu staff.

**Canlyniadau ac Adfeddiadau**

Paratoir y cyfrifon dan Adran 9(4) Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, ar ffurf a bennwyd gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Yr adnoddau net a dderbyniwyd gan y Llyfrgell ar gyfer y flwyddyn ariannol oedd £0.903m (2000-01 £0.189m). Cyfanswm yr adnoddau a dderbyniwyd oedd £8.935m (2000-01 £8.641m) a gwariwyd cyn costau tybiannol £8.032m (2000-01 £8.452m). Gwerth cronfeydd yn weddill ar 31 Mawrth 2002 oedd £49.646m (2001 £46.915m).

Dangosir perfformiad y Llyfrgell yn erbyn targedau Cynulliad Cenedlaethol Cymru isod:

| | | Targed | Gwirioneddol |
|---|---|---|---|
| 1 | Rhaglen Oldrosi: Cofnodion Cymreig | 21,000 | 18,705 |
| 2 | Gofal Cwsmeriaid: amser dosbarthu | 90% | 82.1% |
| 3 | Rhifau Ymwelwyr | 54,000 | 91,710 |

Rhoddir y rhain, ynghyd â sylwadau ategol, yn Adroddiad Blynyddol y Llyfrgell hefyd.

**Braslun o Weithgareddau**
Cyfeiria prif weithgareddau'r Llyfrgell at yr amcanion a ddiffinnir uchod.
Adroddir am ddatblygu gweithgareddau yn yr Adroddiad Blynyddol y mae'r Cyfrifion Blynyddol hyn yn rhan ohono.

**Datganiad y Comisiynwyr Elusennol ynglŷn ag Arferion Cymeradwy**
Cyhoeddwyd Datganiad o Arferion Cymeradwy i elusennau (SORP) gan y Comisiynwyr Elusennol fis Hydref 1995. Mae'r Llyfrgell wedi cydymffurfio i'r SORP ers cyfrifon 1996/97.

**Prisio'r Asedau Sefydlog Diriaethol**
Comisiynodd y Llyfrgell ailbrisiad gan Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig ar adeiladau'r Llyfrgell a'r tir a'r offer rhydd-ddaliadol yn ystod 2001/2002 yn unol â rheoliadau'r Trysorlys a'i gyfarwyddyd cyfredol i gyrff cyhoeddus ar gyfrifo ar sail costau. Dangosir y tir ar sail gwerth y farchnad agored ac asedau sefydlog diriaethol ar sail cost ddadbrisiedig eu hadnewyddu. Bydd y gwerthoedd yn cael eu haddasu'n flynyddol drwy fynegeio rhwng pob prisiad ffurfiol sy'n cael ei gynnal bob 5 mlynedd.

**Asedau Sefydlog**
Y newidiadau mwyaf arwyddocaol yn yr asedau sefydlog yn ystod y flwyddyn oedd:

i. Prynu caledwedd cyfrifiadurol a gwella'r rhwydwaith o fewn y Strategaeth Systemau Gwybodaeth.
ii. Gosod system gwres canolog newydd yn y Llyfrgell fel rhan o waith cynllun Profiad yr Ymwelydd.

Yn unol â gofynion SORP Elusennau 2000, o'r 1af o Ebrill 2001 ymlaen, rhaid i'r Llyfrgell gofnodi gwerth eitemau a brynir ar gyfer y casgliadau yn y fantolen. Ystyrir bod yr asedau hyn yn dod o fewn y diffiniad o asedau hanesyddol neu ddiymwad.

**Datblygiadau'r Dyfodol**
Mae'r Llyfrgell wedi paratoi ei chynllun gweithredu dan y pennawd "Llwybrau mynediad at addysg: y tair blynedd nesaf". Mae'r ddogfen hon yn nodi blaenoriaethau i ddatblygiad y Llyfrgell yn y cyfnod hyd at 2004/05 ac o blith y rhain dyma'r prif flaenoriaethau:

1. Llyfrgell Ddigidol - nod menter yw cyrraedd cynulleidfa ehangach byd-eang yn wir trwy ddarparu cymaint o wybodaeth ag y gellir dros y Rhyngrwyd. Mae iddi dair rhaglen. Nod y rhain yw:

- Cwblhau rhestru cynnwys y Llyfrgell ar-lein
- Darparu ar-lein gopïau digidol o eitemau o'r casgliadau
- Casglu, storio a chreu mynediad i gyhoeddiadau di-brint (electronig yn bennaf) a fydd yn deillio o ddeddfwriaeth newydd ar estyn rhychwant adnau cyfreithiol

2. Llyfrgell Agored – bydd menter hyn yn agor y Llyfrgell i grwpiau, megis dysgwyr dros oes, na chawsant wasanaeth fel arfer yn y gorffennol. Nod ei thair rhaglen yw:

- sefydlu canolfan ymwelwyr fel estyniad i adeilad presennol y Llyfrgell. Darparodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru arian ar gyfer y prosiect hwn yn ystod 2001/02. Bydd Cronfa Dreftadaeth y Loteri a Chronfeydd Preifat y Llyfrgell yn noddi'r prosiect yn 2002/03 a'r tu hwnt.
- Gweithredu Strategaeth Addysg a Dysgu y Llyfrgell.

**Cyflogi Pobl Anabl**

Gweithreda Llyfrgell Genedlaethol Cymru drefn benodi sy'n rhydd o unrhyw gamwahaniaethu ac y mae bob amser yn barod i ystyried ceisiadau gan bobl anabl ac i'w penodi. Ymhellach gwneir pob ymdrech gan y Llyfrgell i sicrhau bod unrhyw aelodau o'r staff sy'n anabl yn cael y cyfleusterau sy'n angenrheidiol er mwyn iddynt gyflawni eu gwaith yn effeithiol.

**Polisi Talu Credydwyr**

Gweithreda'r Llyfrgell drefn arolygu i fesur perfformiad y Llyfrgell yn erbyn "Côd Gwell Trefniadau Talu" y Cydffederasiwn Diwydiannau Prydain. Yn ystod 2001/02, talwyd 98% (2000/01 – 94%) o'r anfonebau a awdurdodwyd o fewn 30 diwrnod.

**Yr Ewro**

Nid yw'r Llyfrgell yn credu bydd cyflwyniad yr ewro yn cael effaith sylweddol ar weithgareddau neu gyfrifon y sefydliad.

**Ymgynghori a Gweithwyr**

Mae Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn trosglwyddo gwybodaeth i aelodau ei staff trwy ddulliau amrywiol gan gynnwys cyfarfodydd staff, sesiynau cyfarwyddo tïm, memoranda agored, memoranda i Benaethiaid Adrannau, ymgynghori ac ymdrafod â Chyngor Whitley ac i'r Undebau Llafur.

**Aelodau'r Llys / Cyngor**

Y Cyngor yw'r awdurdod gweithredol sy'n gyfrifol am reoli a gweinyddu arian ac eiddo'r Llyfrgell ac iddo y perthyn yr holl arian a gyfrennir gan y Trysorlys neu a ddeillia o ffynonellau eraill a'r holl dir, adeiladau, neu roddion mewn nwyddau a gymynroddir neu a roddir ar gyfer amcanion y Llyfrgell. Er mwyn cydymffurfio i'r Datganiad o Arferion Cymeradwy "Cyfrifyddu gan Elusennau", gweithreda'r Cyngor fel Ymddiriedolwr.

Mae rhestrau o aelodau'r Llys a'r Cyngor a weithredodd yn ystod y flwyddyn a ddiweddodd 31 Mawrth 2002 mewn atodiad i'r rhagair hwn.

Penodir aelod i'r Llys nail ai yn rhinwedd ei swydd gyda'r Llyfrgell, neu gan un o restr o gyrff penodedig neu drwy gael ei gyfethol gan y llys ei hun.

Nid yw aelodau'r Llys a'r Cyngor yn derbyn tâl. Dibynnir Llyfrgell arnynt fynychu cyfarfodydd ag achlysuron eraill fel gwirfoddolwyr.

**Strwythur y Drefniadaeth**
Y Llyfrgellydd yw'r Swyddog Cyfrifo a bennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Fe'i cynorthwyir yn ei ddyletswyddau gan yr Uwch Dîm Rheoli a cheir manylion aelodau'r tîm hwnnw yn nodyn 6.
Mae'r Llyfrgell wedi sefydlu isbwyllgorau i'r Cyngor sy'n cynnwys y Pwyllgor Cynllunio ac Adnoddau, y Pwyllgor Archwilio, y Pwyllgor Adeiladau a'r Pwyllgor Staffio. Bydd y pwyllgorau hyn yn ystyried materion sy'n ymwneud â'u meysydd penodol a chyflwynir eu cofnodion gerbron y Cyngor i'w cymeradwyo.

**Polisi Cyfrif-Wrth-Gefn Elusennol**
Mae SORP Elusennau 2000 yn mynnu bod y Llyfrgell yn datgelu ei pholisi ar Gyfrif-wrth-Gefn Elusennol. Cyfeirir at y polisi hwn a'i bwrpas yn Nodyn 1f y cyfrifon.

Polisi cyfrif-wrth-gefn y Llyfrgell gyda golwg ar ei chronfeydd cyhoeddus yw cydymffurfio gyda gofynion "Datganiad Memorandwm Ariannol a Rheoli" Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n nodi'r fframwaith ariannol y mae gofyn i'r Llyfrgell weithio dano.

Mae pedwar amcan i gronfeydd preifat anghyfyngedig y Llyfrgell:
- Cyfrannu tuag at greu prosiect Profiad yr Ymwelydd.
- Cyfrannu at gostau refeniw cynnal gwasanaethau'r Llyfrgell.
- Cyfrannu at gefnogi Grant Pwrcasu'r Llyfrgell
- Cefnogi'r broses o feddu asedau cyfalaf penodol

Dim ond yn unol â thelerau cymynroddion y ceir defnyddio cronfeydd cyfyngedig y Llyfrgell.

Ym mlwyddyn ariannol 2001/02 polisi'r Llyfrgell oedd cynyddu lefel yr arian a ddelir yn y portffolio. Ar 31ain Mawrth, y swm hwn oedd £1.334M (1af Ebrill £0.051M) Y prif reswm dros gronni'r arian hwn yw er mwyn talu'r cyfraniad a ragwelir tuag at gostau creu prosiect Profiad yr Ymwelydd ac er mwyn osgoi hyd y bo modd y risg i hylifedd sydd ynghlwm wrth ddal stociau ac ecwitïau er mwyn cwrdd ag ymrwymiadau y gwyddys amdanynt.

Rheolwyd portffolio buddsoddiadau'r Llyfrgell gan Carr Sheppard Crosthwaite ar sail ymgynghorol yn 2001/02 yn unol â gofynion Deddf Buddsoddi 1961 ac yn fwy diweddar, Deddf Ymddiriedolwyr 2000. Monitrwyd perfformiad y portffolio a chyflwyno adroddiad i Bwyllgor Cynllunio ac Adnoddau'r Llyfrgell. Yn ystod y flwyddyn, yn unol â'r defnydd a ragwelir o gronfeydd preifat yn y dyfodol, penderfynodd y Llyfrgell rannu'r ffordd y rheolir y gronfa o'r 1af Ebrill 2002 ymlaen. Rheolir un rhan ohoni, sef gwerth oddeutu £2M sy'n cynnwys arian a bondiau,ar sail ymgynghorol a rheolir y gweddill, sef gwerth oddeutu £3M sy'n cynnwys ecwitïau a bondiau, yn ôl disgresiwn. Bydd Carr Sheppard Crosthwaite yn parhau i reoli'r buddsoddi.

Yn ystod 2001/02, ystyriodd Cyngor y Llyfrgell adroddiad cynhwysfawr ynghylch cronfeydd cyfyngedig ac anghyfyngedig, rhagamcan o'u lefelau yn y dyfodol a'r adnoddau sy'n debygol o fod ar gael ac fe gymeradwyodd yr adroddiad hwnnw. Rhagamcenir mai gwerth cronfeydd preifat y Llyfrgell erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2004/05 fydd:

- Cronfeydd anghyfyngedig - £3.006M
- Cronfeydd cyfyngedig - £0.686M

**Ymgynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Bancwyr | Banc y National Westminster, Aberystwyth |
| Cyfreithwyr | Edwards Geldard, Caerdydd |
| Archwilwyr Mewnol | Bentley Jennison, Bryste |
| Broceriaid Buddsoddiadau | Carr Sheppards Crosthwaite, Llundain |

**Archwilydd**

Archwilir y Cyfrifon gan y Archwilydd Cyffredinol yn unol ag Adran 9(8) Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 dros Gymru.

Andrew M W Green
LLYFRGELLYDD A SWYDDOG CYFRIFYDDOL

Conrad L Bryant
TRYSORYDD Y CYNGOR

28 Awst 2002
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth  SY23 3BU

## LLYS Y LLYWODRAETHWYR

**Llywydd**
R Brinley Jones, CBE, MA, DPhil, HonDLitt, FSA

**Is-Lywydd**
W J Phillips, DL, MA, LlB

**Trysorydd**
Conrad L Bryant, CPFA

**Aelodau Seneddol Cymru**
4 Aelod

**Penodwyd gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Sandra J Anstey, PhD, PGCE
J Elfed Evans, BSc Econ
Katherine Hughes, BA, MSc, MRTPI, FRSA
Ian C Lovecy, MA, PhD, HonFLA

**Prifysgol Cymru**
Yr Athro Derec Llwyd Morgan, BA, DPhil, DLitt

**Y Sefydliadau sy'n Cyfansoddi Prifysgol Cymru**
**Prifysgol Cymru Aberystwyth**
Yr Athro Derec Llwyd Morgan, BA, DPhil, DLitt

**Prifysgol Cymru Bangor**
Nigel Soane, MA, DipLib, ALA

**Prifysgol Cymru Caerdydd**
Yr Athro Sioned Davies

**Prifysgol Cymru Abertawe**
Chris West, MA, DipLib, ALA

**Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan**
Dr Jane Cartwright

**Prifysgol Morannwg**
Jeremy Atkinson, BSc, MPhil, DipLib, ALA

**Colegau yng Nghymru a gydnabyddir drwy Ordinhad fel Colegau'r Sector Cyhoeddus**
Geraint Thomas

**Cyd-Bwyllgor Addysg Cymru**
1 Aelod

**Corff Llywodraethol Coleg Iesu, Rhydychen**
Yr Athro T M O Charles-Edwards, MA, DPhil

**Cyngor Gwasanaethau Llyfrgell a Hysbysrwydd (Cymru)**
Linda Tomos, BLib

**Penodwyd gan Fwrdd y Llyfrgell Brydeinig**
Dr Clive Field

**Cymdeithas Llywodreath Leol Cymru**
5 Aelod

**Cyngor Sir Ceredigion**
Y Cynghorydd J Geraint Jenkins, MA, DScEcon, FSA, FMA

**Cyngor Tref Aberystwyth**
Y Cynghorydd Llinos Roberts-Young, BA

**Cymdeithas Llyfrgelloedd Cymru**
1 Aelod

**Cyngor Celfyddydau Cymru**
Yr Athro Hazel Walford Davies, BA, MA, PhD(Cymru), DipEd(Oxon)

**Cyngor Llyfrau Cymru**
Gwerfyl Pierce Jones, MA

**Conffederasiwn Diwydiant Prydain (Cymru)**
Robert A Salisbury, LlB, Notari Cyhoeddus

**Cyngres yr Undebau Llafur yng Nghymru**
Geraint Davies

**Llys Llywodraethwyr Amgueddfa ac Orielau Cenedlaethol Cymru**
Susan J Davies, BA, DAA, PhD

**Cymdeithas Cyfeillion Llyfrgell Genedlaethol Cymru**
Nesta Lloyd, MA, DPhil, DAA

**Orielau Celf yng Nghymru**
Michael Freeman, BSc

**Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yng Nghymru**
Gail Morgan

**Cyfetholwyd gan Lys y Llywodraethwyr**
Alun Creunant Davies, MA
Yr Athro Ceri Davies, BA, MPhil, Dlitt
Y Tra Pharchedig J Wyn Evans, BA, BD, FSA, FRHistS
J Arfon Hughes, BArch(Cymru)
Yr Athro Elan Closs Stephens, CBE, MA
John Watkin, FRSA
Yr Athro Emeritus Deidre Beddoe

**Y CYNGOR**
**Llywydd**
R Brinley Jones, CBE, MA, DPhil, HonDLitt, FSA

**Is-Lywydd**
W J Phillips, DL, MA, LlB

**Trysorydd**
Conrad L Bryant, CPFA

**Penodwyd gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Katherine Hughes, BA, MSc, MRTPI, FRSA
Ian C Lovecy, MA, PhD, HonFLA
Sandra J Anstey, PhD, PGCE
J Elfed Evans, BSc Econ

**Etholwyd gan Lys y Llywodraethwyr**
Gwerfyl Pierce Jones, MA
Yr Athro Elan Closs Stephens, CBE, MA
Alun Creunant Davies, MA
J Arfon Hughes, BArch(Cymru)
Yr Athro Derec Llwyd Morgan, BA, DPhil, DLitt
Yr Athro Ceri Davies, BA, MPhil, DLitt
John Watkin, FRSA

**Cyfetholwyd gan y Cyngor**
W Gwyn Williams, OBE, MInstAM, HonFLA, FRSA
Yr Athro Peter H Morgan, BA, PhD
Yr Athro D Hywel Roberts, MA, DipLib, ALA
3 Aelod i'w penodi

**STAFF HŶN**

**Llyfrgellydd**
Andrew M W Green, MA, DipLib, ALA

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Casgliadau**
Gwyn Jenkins, MA

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus**
W Rhidian M Griffiths, MA, MLitt, PhD, DipLib, ALA

**Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol**
Mark W Mainwaring, MA, Cyfreithiwr

**Cyfarwyddwr Cyllid**
David H Michael, CPFA

**Ceidwad Mapiau a Phrintiau dros dro**
D Michael Francis, BA (hyd at 18 Ionawr 2002)

## DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU'R CYNGOR A'R LLYFRGELLYDD

O dan adran 9(4) o Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 mae'n ofynnol i Gyngor Llyfrgell Genedlaethol Cymru baratoi datganiad o'r cyfrifon mewn perthynas a phob blwyddyn gyfrifo ar ffurf ac ar sylfaen sydd wedi'u pennu gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru gyda chymeradwyaeth y Trysorlys. Llunnir y cyfrifon i ddangos golwg wir a theg o weithgareddau ariannol y Llyfrgell yn ystod y flwyddyn ac o'r sefyllfa ariannol ar ddiwedd y flwyddyn.

Wrth baratoi cyfrifon y Llyfrgell mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud fel a ganlyn:

- lynu wrth y cyfarwyddyd cyfrifon a gyhoeddwyd gan yr Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys y gofynion perthnasol o ran cadw cyfrifon a datguddiadau a'u defnyddio ar sylfaen gyson.

- llunio penderfyniadau ac amcangyfrifon mewn modd rhesymol a gochelgar.

- datgan a gadwyd at y safonau cyfrifyddol priodol a datganiadau arferion argymelledig, a datguddio ac esbonio unrhyw wyro materol a welir yn yr adroddiadau ariannol.

- llunio adroddiadau ariannol ar sail bod yn fusnes sy'n parhau i weithredu, onid yw'n amhriodol cymryd yn ganiataol y bydd y Llyfrgell yn parhau.

Mae Prif Swyddog Cyfrifyddol y Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi pennu'r Llyfrgellydd yn Swyddog Cyfrifyddol ar gyfer y Llyfrgell. Mae ei gyfrifoldebau perthnasol, yn rhinwedd ei swydd fel Swyddog Cyfrifyddol, gan gynnwys ei gyfrifoldeb dros sicrhau priodoldeb a rheoleidd-dra yr arian cyhoeddus y mae'n gyfrifol amdanynt, a thros gadw cofnodion priodol, wedi eu nodi yn y Memorandwm i Swyddogion Cyfrifo'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru a ryddhawyd gan y Trysorlys.

# DATGANIAD AR REOLAETH FEWNOL

Fel Swyddog Cyfrifo, rwyf yn gyfrifol am gynnal system reolaeth fewnol gadarn sy'n cefnogi'r broses o gyflawni polisïau, a nodau ac amcanion y Llyfrgell fel y'u pennwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru, tra'n diogelu cronfeydd ac asedau cyhoeddus y Llyfrgell yr wyf yn bersonol gyfrifol amdanynt yn unol â'r cyfrifoldebau a roddwyd i mi dan Drefn Gyfrifo'r Llywodraeth. Yr wyf hefyd yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd rheolaeth fewnol.

Lluniwyd y drefn reolaeth fewnol er mwyn rheoli yn hytrach nag er mwyn dileu'r risg o fethu â chyflawni polisïau, nodau ac amcanion; felly, ni all ond ddarparu sicrwydd rhesymol yn hytrach na sicrwydd absoliwt y bydd yn effeithiol.

Mae'r Llyfrgell yn disgwyl y bydd pob trefniadaeth angenrheidiol ar waith ganddi cyn mis Mawrth 2003 er mwyn cydymffurfio â chyfarwyddyd y Trysorlys ar Ddatganiad Rheolaeth Fewnol.

Mae'r drefn reolaeth fewnol wedi'i seilio ar broses barhaus gyda'r nod o nodi'r prif bethau a allai beryglu'r broses o gyflawni polisïau, nodau ac amcanion y Llyfrgell, pwyso a mesur natur a maint y risgiau hyn, a'u rheoli'n effeithlon, yn effeithiol ac mewn ffordd ddarbodus. Dechreuodd y broses hon yn y Llyfrgell ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31ain Mawrth 2002 a hyd at ddyddiad cymeradwyo'r adroddiad blynyddol a'r cyfrifon ac mae hynny'n unol â chyfarwyddyd y Trysorlys.

Mae'r Llyfrgell wedi nodi, dogfennu, asesu ac ystyried y risgiau strategol a gweithredol allweddol sy'n berthnasol i weithgareddau'r Llyfrgell. Ystyriwyd y rhain gan yr Uwch Dîm Rheoli a chymerwyd camau priodol i'w rheoli.

Mae'r Llyfrgell wedi rhoi ei rheoliadau ariannol ei hun ar glawr a disgwylir i bob aelod o'r staff lynu wrthynt er mwyn sicrhau ein bod yn cydymffurfio gyda gofynion "Memorandwm Ariannol a Datganiad Rheoli" y Cynulliad. Mae'r Llyfrgell hefyd wedi cynhyrchu "Polisi Gwrth-dwyll a Gwrth-lygredd"

Yn ystod 2001/02:

- Mae pob un o adrannau'r Llyfrgell wedi paratoi cofrestr risg. Yn honno, nodwyd y risgiau penodol a'u rhoi yn eu trefn a'u hasesu yn ôl y tebygolrwydd iddynt ddigwydd. Cyfunwyd y risgiau a nodwyd i gynhyrchu cofrestr risg gorfforaethol.
- Rhoddwyd hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yr Uwch Dîm Rheoli ac uwch reolwyr eraill er mwyn iddynt wneud eu dyletswyddau gyda golwg ar reoli risgiau'n fwy effeithiol.

Er 31ain Mawrth 2002:

- Darparwyd hyfforddiant pellach ar gyfer yr Uwch Dîm Rheoli.
- Mae'r Uwch Dîm Rheoli wedi ystyried y gofrestr risg gorfforaethol ac wedi cytuno ar yr asesiad o'r risgiau hynny. Cytunwyd bod y gofrestr risg gorfforaethol yn cynnwys yr holl risgiau sylweddol oedd yn wynebu'r Llyfrgell ar y pryd, ond roeddent hefyd yn cydnabod y byddai angen ei diweddaru'n rheolaidd. Ar ôl ei diweddaru, bydd y gofrestr yn cael ei hadolygu gan Grwp Turnbull y Llyfrgell ac yn cael ei chyflwyno i'r Uwch Dîm Rheoli iddynt ei hystyried a'i chymeradwyo.

Contractiwr allanol sy'n darparu archwiliad mewnol y Llyfrgell a fydd yn cydymffurfio gyda'r safonau a ddiffinnir yn Llawlyfr Archwilio Mewnol y Llywodraeth a bydd yn adrodd yn annibynnol i mi bob blwyddyn ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd system rheolaeth fewnol y Llyfrgell ynghyd ag argymhellion ar gyfer gwella.

Bydd y Pwyllgor Archwilio'n derbyn copïau o bob adroddiad archwilio mewnol i'w hystyried ac yn monitro digonolrwydd ymatebion y rheolwyr i'r argymhellion sy'n mynd i'r afael â risgiau a gwendidau rheolaeth fewnol. Cyflwynir cofnodion y Pwyllgor Archwilio i Gyngor y Llyfrgell i'w cymeradwyo.

Seilir fy adolygiad ar effeithiolrwydd y system rheolaeth fewnol ar waith yr archwilwyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol yn adrannau'r Llyfrgell sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y fframwaith rheolaeth fewnol, a'r sylwadau a gafwyd gan yr archwilwyr allanol yn eu llythyr rheolaeth ac adroddiadau eraill.

Andrew M W Green
Llyfrgellydd a Swyddog Cyfrifyddol
28 Awst 2002

## TYSTYSGRIF AC ADRODDIAD ARCHWILYDD CYFREDINOL CYMRU I'R AELODAU CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

Tystiaf fy mod wedi archwilio'r datganiadau ariannol ar dudalennau 16 i 31 dan Ddeddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y confensiwn cost hanesyddol sydd wedi'i ddiwygio yn sgïl adbrisio rhai asedion sefydlog a'r polisïau cyfrifo a nodir ar dudalennau 19 i 21.

**Cyfrifoldebau'r Cyngor, y Llyfrgellydd a'r Archwiliwr**

Fel y disgrifir ar dudalen 11, y Cyngor a'r Llyfrgellydd Llyfrgell Genedlaethol Cymru sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a chyfarwyddiadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru a wnaed yn unol â'r ddeddf honno ac am sicrhau rheoleidd-dra'r trafodion ariannol. Mae'r Cyngor a'r Llyfrgellydd hefyd yn gyfrifol am baratoi holl gynnwys arall yr Adroddiad Blynyddol. Mae fy nghyfrifoldebau i, fel archwiliwr annibynnol, wedi'u sefydlu trwy statud ac yn cael eu llywio gan y Bwrdd Ymarferion Archwilio a chanllawiau moeseg y proffesiwn archwilio.

Cyflwynaf fy marn ynghylch cywirdeb a thegwch y datganiadau ariannol ac a ydynt wedi'u paratoi yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992, ac unrhyw gyfarwyddiadau dan ddarpariaethau'r ddeddf honno gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru, ac ym mhob agwedd berthnasol, a yw'r adnoddau a wariwyd a'i dderbyniwyd yn unol â bwriad y Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac a yw'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â gofynion yr awdurdodau sy'n eu rheoli. Adroddaf hefyd os nad yw'r Rhagair, yn fy marn i, yn gyson a'r datganiadau ariannol, os nad yw'r Llyfrgell wedi cadw cofnodion cyfrifo priodol, neu os nad wyf wedi derbyn yr holl wybodaeth ac esboniadau angenrheidiol ar gyfer fy archwiliad.

Yr wyf wedi darllen y gwybodaeth arall sydd yn gynnwysiedig yn yr Adroddiad Blynyddol ac yn barnu a yw'n gyson gyda datganiadau ariannol archwiliedig. Rwyf yn ystyried yr oblygiadau am fy nhystygrif os dof yn ymwybodol o unrhyw camfynegiant neu anghysondebau sylfaenol gyda'r datganiadau ariannol.

Adolygaf a yw'r datganiad ar dudalen 12 a 13 yn adlewyrchu cydymffurfiad y Llyfrgell gyda chanllawiau'r Trysorlys 'Corporate governance: statement on the system on internal financial control'. Adroddaf os nad yw'n bodloni gofynion penodol y Trysorlys, neu os yw'r datganiad yn gamarweiniol neu'n anghyson gyda gwybodaeth arall a ddaeth i'm sylw yn sgïl fy archwiliad o'r datganiadau ariannol.

**Sylfaen barn**

Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Unedig cyhoeddedig gan Bwrdd Ymarferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, ar sail prawf, dystiolaeth sy'n berthnasol i symiau, datguddiadau a rheoleidd-dra'r trafodion ariannol yn y datganiadau ariannol. Mae'n cynnwys hefyd asesiad o amcangyfrifon a barn arwyddocaol y Cyngor a'r Llyfrgellydd wrth lunio'r datganiadau ariannol, a yw'r polisïau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r Llyfrgell, ac a yw'r polisiau hynny wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datguddio'n ddigonol.

Cynlluniais fy archwiliad, ac ymgymerais ag ef, i sicrhau'r holl wybodaeth ac esboniadau a oedd, yn fy marn i, yn angenrheidiol i roi tystiolaeth ddigonol er mwyn gallu sicrhau o fewn rheswm nad oes yn y datganiadau ariannol unrhyw gamfynegiant perthnasol, boed hynny trwy gamgymeriad, trwy dwyll neu afreoleidd-dra arall a bod yr incwm a'r gwariant, ym mhob agwedd ymarferol, yn unol â

bwriadau'r Cynulliad Cenedlaethol Cymru a bod y trafodion ariannol yn cydymffurfio â gofynion yr awdurdodau sy'n eu rheoli. Yr wyf hefyd wedi arfarnu digonolrwydd cyffredinol y wybodaeth a gyflwynir yn y datganiadau ariannol.

**Barn**

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Llyfrgell Genedlaethol Cymru ar 31 Mawrth 2002 ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r modd y caiff yr adnoddau hynny eu defnyddio, a'r llifoedd arian, ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny ac maent wedi eu paratoi'n briodol yn unol â Deddf Amgueddfeydd ac Orielau 1992 a'r cyfarwyddiadau a roddwyd dan ddarpariaethau'r ddeddf honno gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru; ac

- ym mhob agwedd ymarferol, mae'r gwariant a'r incwm yn unol â bwriad y Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac mae'r trafodion ariannol yn cydymffurfio â gofynion yr awdurdodau sy'n eu rheoli.

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

John Bourn
Archwilydd Cyffredinol Cymru
19 Medi 2002

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

**DATGANIAD O WEITHGAREDDAU ARIANNOL AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002**

| | | CRONFEYDD CYHOEDDUS | | CRONFEYDD PREIFAT | | 2000/2001 | 1999/00 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nod-iadau | Anghyfyngedig £000 | Cyfyngedig £000 | Anghyfyngedig £000 | Cyfyngedig £000 | **Cyfanswm £000** | Cyfanswm £000 |
| **ADNODDAU A DDERBYNIWYD** | | | | | | | |
| Grant a dderbyniwyd | 2 | 5,987 | 1,852 | - | - | **7,839** | 7,521 |
| Grantiau Eraill | 3 | 219 | - | - | - | **219** | 359 |
| Incwm Masnachu Arall | 4 | 328 | - | - | - | **328** | 403 |
| Incwm ar Fuddsoddiadau | 8 | - | - | 239 | 29 | **268** | 294 |
| Rhoddion a Chymynroddion | 8 | - | - | 279 | 2 | **281** | 64 |
| **CYFANSWM YR ADNODDAU A DDERBYNIWYD** | | **6,534** | **1,852** | **518** | **31** | **8,935** | 8,641 |
| **ADDNODDAU A WARIWYD** | 5 | | | | | | |
| Gwariant Elusennol Uniongyrchol: | | | | | | | |
| Casglu a Chadw | | 4,121 | 881 | 231 | - | **5,233** | 5,790 |
| Marchnata, Arddangosfeydd ac Addysg | | 322 | 55 | 5 | 23 | **405** | 346 |
| Cadwraeth | | 520 | 107 | 31 | - | **658** | 571 |
| | | 4,963 | 1,043 | 267 | 23 | **6,296** | 6,707 |
| Cefnogaeth | | 686 | 146 | - | - | **832** | 801 |
| **Cyfanswm Gwariant Uniongyrchol** | | **5,649** | **1,189** | **267** | **23** | **7,128** | 7,508 |
| Gwariant Arall: | | | | | | | |
| Codi Arian a Chyhoeddusrwydd | | 43 | - | 1 | - | **44** | 116 |
| Rheoli a Gweinyddu | | 725 | 133 | 2 | - | **860** | 828 |
| **Cyfanswm Gwariant Arall** | | 768 | 133 | 3 | - | **904** | 944 |
| **Cyfanswm Arian a Wariwyd Cyn Costau Tybiannol** | | **6,417** | **1,322** | **270** | **23** | **8,032** | 8,452 |
| Costau Tybiannol Tâl Cyflaf | | 2,567 | - | - | - | **2,567** | 2,477 |
| **CYFANSWM ARIAN A WARIWYD GAN GYNNWYS COSTAU TYBIANNOL** | | **8,984** | **1,322** | **270** | **23** | **10,599** | 10,929 |
| **ADNODDAU NET A DDERBYNIWYD / (WARIWYD) CYN TROSGLWYDDIADAU** | | (2,450) | 530 | 248 | 8 | **(1,664)** | (2,288) |
| Gwrthdroad cost tybiannol cyfalaf | | 2,567 | - | - | - | **2,567** | 2,477 |
| Trosglwyddiadau gross rhwng cronfeydd | 8 | - | 11 | (11) | - | **-** | - |
| **ADDNODDAU NET A DDERBYNIWYD / (WARIWYD) AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | **117** | **541** | **237** | **8** | **903** | 189 |
| Colled wrth gael gwared ar asedau sefydlog diriaethol | | - | - | - | - | **-** | (9) |
| Enillion/(colledion) ar werthiant asedau y bwriadwyd eu buddsoddi | 8 | - | - | 86 | 10 | **96** | (27) |
| Enillion/(colledion) nas gwireddwyd ar: | | | | | | | |
| Fuddsoddiau | 8 | - | - | (238) | (21) | **(259)** | (159) |
| Asedau sefydlog diriaethol | | - | 1,991 | - | - | **1,991** | - |
| **SUMUDIAD ARIAN NET CRONFEYDD AR GYFER Y FLWYDDYN ARIANNOL** | | **117** | **2,532** | **85** | **(3)** | **2,731** | (6) |
| **CRONFEYDD YN WEDDILL A DDYGWYD YMLAEN AR 1 EBRILL** | 13 | (123) | 41,579 | 4,875 | 584 | **46,915** | 46,921 |
| **CRONFEYDD YN WEDDILL I'W DWYN YMLAEN AR 31 MAWRTH** | 13 | **(6)** | **44,111** | **4,960** | **581** | **49,646** | **46,915** |

Mae pob gweithrediad yn parhau. Mae'r holl enillion a'r colledion yn cael eu cofnodi yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 hyd at 31yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

# Y FANTOLEN AR 31 MAWRTH 2002

| | | | 31 Mawrth 2002 | 31 Mawrth 2001 |
|---|---|---|---|---|
| | Nodiadau | £000 | £000 | £000 |
| **ASEDAU SEFYDLOG** | | | | |
| Asedau Diriaethol | 7 | **43,515** | | 41,509 |
| Collections | 7 | **562** | | - |
| Buddsoddiadau | 9 | **4,206** | | 5,407 |
| | | | **48,283** | 46,916 |
| **ASEDAU CYFREDOL** | | | | |
| Dyledwyr | 11 | **627** | | 290 |
| Buddsoddiadau Tymor Byr | 10 | **1,334** | | 51 |
| Arian yn y Banc | | **-** | | 12 |
| | | **1961** | | 353 |
| **CREDYDWYR** | | | | |
| Banc | | **(176)** | | - |
| Swm sy'n ddyledus o fewn blwyddyn | 12 | **(297)** | | (189) |
| **ASEDAU CYFREDOL NET** | | | **1,488** | 164 |
| Darpariaeth i Rhwymedigaethau a Thaliadau | 19 | | **(125)** | (165) |
| **ASEDAU NET** | | | **49,646** | 46,915 |
| **CRONFEYDD** | 13 | | | |
| Cyhoeddus Anghyfyngedig | | | **(6)** | (123) |
| Cyhoeddus Cyfyngedig | | | **44,111** | 41,579 |
| Preifat Anghyfyngedig | | | **4,960** | 4,875 |
| Preifat Cyfyngedig | | | **581** | 584 |
| | | | **49,646** | 46,915 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 hyd at 31 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

Andrew MW Green
Llyfrgellydd a
Swyddog Cyfrifyddol
28 Awst 2002

Conrad L Bryant
Trysorydd y
Cyngor
28 Awst 2002

**DATGANIAD O LIF ARIAN AM Y FLWYDDYN YN DIWEDDU 31 MAWRTH 2002**

| | Nodiadau | **2001/02** | 2000/01 |
|---|---|---|---|
| | | **£000** | £000 |
| Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredol | 15 | **1,956** | 1,259 |
| Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiadau Ariannol | 16 | **(861)** | (1,336) |
| Rheolaeth dros adnoddau ariannol parod | 17 | **(1,283)** | (14) |
| Cynnydd / (Lleihâd) mewn Arian | | **(188)** | (91) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 19 hyd at 31 yn ffurfio rhan o'r cyfrifon hyn.

## NODIADAU I'R CYFRIFON 31 MAWRTH 2002

1. **POLISÏAU A FABWYSIADWYD WRTH BARATOI’R CYFRIFON**

(a) **Confensiynau Cyfrifon**

Paratoir y cyfrifon dan gonfensiwn y gost hanesyddol, wedi’i addasu i gynnwys ail-brisio asedau sefydlog, ac maent yn cydymffurfio i’r Datganiad ynglŷn ag Arferion Cymeradwy, “Cyfrifyddu gan Elusennau” a gyhoeddwyd gan y Comisynwyr Elusennau ar gyfer Cymru a Lloegr ac i’r Cyfarwyddyd Cyfrifon a anfonwyd i’r Llyfrgell gan Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Paratoir y cyfrifon hyn ar sail busnes byw.

Heb gyfyngu ar y wybodaeth a roddir, cyferfydd y cyfrifon ag anghenion Safonau Cadw Cyfrifon a gyhoeddwyd neu a fabwysiadwyd gan y Bwrdd Safonau Cyfrifon i’r graddau y mae’r anghenion hynny’n briodol. Nid yw’r Cyfarwyddyd Cyfrifon yn mynnu i’r Llyfrgell gynhyrchu crynodeb cyfrif incwm a gwariant na nodyn o gost hanesyddol ar enillion a cholledion.

(b) **Adnoddau a Dderbyniwyd**

Rhoddir cyfrif am bob incwm pan enillir ef. Derbynnir Cymorth Grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer costau cynnal a gwariant cyfalaf. Cydnabyddir pob Cymorth Grant yn y SOFA ym mlwyddyn ei dderbyn. Rhoddir cyfrif am gyfraniadau, cymynroddau ac incwm gwirfoddol pan enillir ef. Trosglywddir cyfraniadau o gronfeydd preifat ar ôl ystyried symudiadau mewn asedau cyfredol.

(c) **Gwariant**

Dosberthir gwariant dan brif gategorïau gwariant elusennol a gwariant arall, yn hytrach na’r math o gost, er mwyn darparu gwybodaeth fwy defnyddiol i ddefnyddwyr y datganiadau ariannol.

Mae gwariant elusennol a chostau gweinyddiaeth yn cynnwys gwariant uniongyrchol gan gynnwys costau staffio uniongyrchol y gellid eu priodoli i’r gweithgaredd. Lle na ellid priodoli costau’n uniongyrchol, fe’u neilltuwyd ar gyfer gweithgareddau ar sail sy’n gyson a defnydd yr adnoddau.

Trosglwyddir arian o’r Cronfeydd Preifat Anghyfyngedig ar ddiwedd y flwyddyn i ategu’r nawdd Cymorth Grant.

Costau codi arian a chyhoeddusrwydd yw’r costau a gafwyd wrth geisio cyfraniadau gwirfoddol i’r Llyfrgell ac wrth roi cyhoeddusrwydd i’r Llyfrgell.

Costau rheoli a gweinyddu yw’r rhai a gafwyd mewn cysylltiad â rheoli asedau’r Llyfrgell, gweinyddu’r sefydliad a chydymffurfio â gofynion cyfansoddiadol a statudol.

(ch) **Pryniannau i'r Casgliad**

Cyn y 1af o Ebrill 2001, nid oedd casgliad y Llyfrgell wedi'i gyfalafu yn y fantolen. Rhoddwyd pryniannau i'r casgliad dan bennawd Cronfeydd Cyhoeddus Cyfyngedig yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol yn ystod blwyddyn eu caffael. Yn unol â gofynion SORP Elusennau 2000, cyfalefir pryniannau i'r casgliad ym mlwyddyn eu caffael pa bryd bynnag y bo modd sicrhau gwerth dibynadwy ar y farchnad.

(d) **Stoc**

Gan nad yw'r cyflenwad o eitemau y gellir eu hailwerthu yn sylweddol, cynhwysir eu gwerth yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol ym mlwyddyn eu prynu/cynhyrchu.

(dd) **Prynu a Gwerthu mewn Arian Tramor**

Trawsnewidiwyd yr Asedau a'r Rhwymedigaethau a enwyd mewn arian tramor ar y raddfa gyfnewid oedd mewn grym ar ddyddiad y fantolen. Cofnodir trafodion mewn arian tramor ar y raddfa sydd mewn grym ar ddyddiad y trafodion.

(e) **Cost Tybiannol Cyfalaf**

Yn unol â gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru, cynhwysir llog tybiannol ar gyfalaf, sy'n adlewyrchu cost y cyfalaf a ddefnyddiwyd, yn y costau rhedeg a'i amcangyfrif yn 6% o'r cyfalaf a ddefnyddiwyd.

(f) **Cadw Cyfrifon Cronfeydd**

Y mae cronfeydd anghyfyngedig cyhoeddus a phreifat ar gael i'w defnyddio yn ôl doethineb y Cyngor wrth hyrwyddo amcanion cyffredinol y Llyfrgell.

Cronfeydd cyfyngedig cyhoeddus yw'r Grant Cyfalaf a'r Grant Pwrcasu a dderbynnir gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Cronfeydd cyfyngedig preifat yw cronfeydd sy'n gaeth i gyfyngiad penodol a bennwyd gan roddwr neu i amcan yr apel.

(ff) **Buddsoddiadau**

Dangosir buddsoddiadau yn ôl eu gwerth ar y farchnad. Cynhwysir enillion a cholledion ar werthiant yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol. Mae symudiadau yng ngwerth marchnadol buddsoddiadau a ddelir ar ddiwedd y flwyddyn hefyd yn cael eu hadlewyrchu yn y Cyfrif hwn yn unol â'r Datganiad o Arferion Cymeradwy am Gyfrifyddu ar gyfer Elusennau.

(g) **Asedau Sefydlog**

Dangosir Tir ac Adeiladau yn ôl eu gwerth ar y farchnad agored, neu ar gost adnewyddu ostyngol yn achos adeiladau arbenigol. Ceir prisiad allanol bob pum mlynedd a defnyddir mynegrifau priodol i godi gwerth y prisiad hwn yn y blynyddoedd canol.

Dangosir offeriant, peiriannau a chyfarpar ar y gost adnewyddu gyfredol namyn lwfans am ddibrisiant. Fe godir y prisiad bob blwyddyn gan ddefnyddio mynegrifau priodol. Cynhwysir enillion a cholledion yn deillio o'r ail-brisio yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol yn y flwyddyn y digwyddant.

Darperir dibrisiant ar raddfeydd a amcangyfrifir er mwyn i bob ased ostwng yn gyson at weddill tybiedig ei werth dros yr oes economaidd ddefnyddiol a ddisgwylir iddo. Mae cyfartaledd oes fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Adeiladau rhydd-ddaliadol | - hyd at 80 mlynedd |
| Offeriant, peiriannau a chyfarpar | - hyd at 18 mlynedd |
| Offer cyfrifiaduron | - hyd at 3 mlynedd |

Ni ddibrisir tir rhydd-ddaliadol.
Ni ddibrisir pryniannau i'r Casgliad.

£5,000 yw'r isafswm ar gyfer cyfalafu, ond cyfalefir hefyd gyfarpar Technoleg Wybodaeth lle bo'n ffurfio rhan o rwydwaith.

(ng) **Costau Pensiynau**

Gweithreda'r Llyfrgell ei chynllun blwydd-dâl ei hun sy'n darparu budd-daliadau wedi'u seilio ar gyflog terfynol pensiynol. Mae'r cyfraniadau i'r cynllun sy'n ofynnol gan yr actiwari'n cael ei priodoli i'r Datganiad o Weithgareddau Ariannol dros oes gweithio'r cyflogeion. Gwneir darpariaeth briodol yn y cyfrifon hyn ar gyfer costau'r pensiynau sydd wedi crynhoi, ond nad ydynt yn ddyledus eto, i'w talu i gronfa bensiwn y Llyfrgell.

(h) **Treth**

Caniatawyd statws elusen i'r Llyfrgell gan Gyllid y Wlad. Cynhwysir Treth ar Werth anadferadwy, sy'n deillio o wariant ar weithgareddau heblaw masnachu, yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol neu ei throi yn gyfalaf os yw'n ymwneud ag ased sefydlog.

## 2. GRANTIAU'R LLYWODRAETH

| | 2001/02<br>£000 | 2000/01<br>£000 |
|---|---|---|
| **Cyfyngedig** | | |
| Grant Cynnal | **5,987** | 5,361 |
| | | |
| **Anghyfyngedig** | | |
| Grant Pwrcasu | **576** | 565 |
| Cyfalaf | **1,276** | 1,595 |
| **Cyfanswm y grant a dderbyniwyd gan y Cynulliad Cenedlaethol Cymru.** | **7,839** | 7,521 |

## 3. GRANTIAU ERAILL

| | 2001/02<br>£000 | 2000/01<br>£000 |
|---|---|---|
| **Cyfyngedig** | | |
| Pwrcasu (i) | **-** | 278 |
| Cyfalaf | **-** | 20 |
| | **-** | 298 |
| **Anghyfyngedig** | | |
| Eraill | **219** | 61 |
| | **219** | 359 |

(i) Grantiau a dderbyniwyd i gynorthwyo prynu casgliad Wynnstay.

## 4. INCWM ARALL

| | 2001/02<br>£000 | 2000/01<br>£000 |
|---|---|---|
| **Anghyfyngedig** | | |
| Gwerthiant | **187** | 185 |
| Llog y Banc | **4** | 13 |
| Ffreutur | **86** | 100 |
| Amrywiol | **51** | 105 |
| | **328** | 403 |

## 5. CYFANSWM ARIAN A WARIWYD CYN COSTAU TYBIANNOL

| | Costau Staff £000 | Costau Uniongychol Eraill £000 | Dibrisiant £000 | **2001/02** **Cyfanswm** **£000** | 2000/01 Cyfanswm £000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant Elusennol** | | | | | |
| Casglu a Chadw | 3,195 | 1,157 | 881 | **5,233** | 5,790 |
| Marchnata, Arddangosfeydd ac Addysg | 201 | 149 | 55 | **405** | 346 |
| Cadwraeth | 385 | 166 | 107 | **658** | 571 |
| | **3,781** | **1,472** | **1,043** | **6,296** | 6,707 |
| Cefnogaeth | 530 | 156 | 146 | **832** | 801 |
| **Cyfanswm Gwariant Uniongyrchol** | **4,311** | **1,628** | **1,189** | **7,128** | 7,508 |
| Gwariant Arall | | | | | |
| Codi Arian a Chyhoeddusrwydd | - | 44 | - | **44** | 116 |
| Rheoli a Gweinyddu | 484 | 243 | 133 | **860** | 828 |
| **Cyfanswm Gwariant Arall** | **484** | **287** | **133** | **904** | 944 |
| **Cyfanswm Arian a Wariwyd Cyn Costau Tybiannol** | **4,795** | **1,915** | **1,322** | **8,032** | 8,452 |

Cynhwysir swm o £21,500 (2000-01 £18,400) dan reoli a gweinyddu ar gyfer tâl yr archwilwyr allanol a £3,200 a TAW (2000-01 £3,100 a TAW) ar gyfer gwaith archwilio arall. Cynhwyswyd swm o £14,734 (2000-01 £4,618) hefyd ar gyfer cost gwaith archwilio mewnol gan Bentley Jennison.

## 6. TREULIAU STAFF

(a) Cyfanswm Costau Staff

| | **2001/02** **£000** | 2000/01 £000 |
|---|---|---|
| Cyflogau (i) | **4,205** | 4,061 |
| Treuliau Nawdd Cymdeithasol | **320** | 305 |
| Costau Eraill ynglŷn a Phensynau (ii) | **270** | 271 |
| | **4,795** | 4,637 |

(i) Disgwylid dyfarniad cyflog yn 2001/02, ond ni chwblhawyd y negodi tan 2002. Bydd swm y dyfarniad ar gyfer 2001/02 yn cael ei gynnwys yng nghyfrifon 2002/03. Amcangyfrif o'r gwerth ar gyfer 2001/02 yw £315,000.

(ii) Mae costau eraill ynglŷn a phensiynau yn cynnwys pensiynau o £48,616 (£69,450 2000/01) dan hen gynllun pensiynau.

(b) Yn unol â Chôd Greenbury a llythron Dear Accounting Officer (GEN) 3/00 a 12/00 cyhoeddwyd gan y Trysorlys, mae'n ofynnol i'r Llyfrgell ddatgelu'r manylion canlynol ynghylch taliadau'r uwch staff sydd â'r cyfrifoldeb dros redeg adrannau llunio polisïau:-

**Cyflogau Rheolwyr Uwch**

| Swydd | Enw | Oed | Cyflog Gros am y flwyydyn | Cynnydd Gwirioneddol mewn Hawliau Pensiwn dros y flwyddyn | Cyfanswm y Pensiwn Cronedig ar 31/3/2000 |
|---|---|---|---|---|---|
| | | | £ | £ | £ |
| Llyfrgellydd | Mr AMW Green | 49 | 59,078 | 688 | 2,336 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Casgliadau | Mr G Jenkins | 52 | 50,614 | 494 | 16,026 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol | Mr MW Mainwaring | 46 | 49,626 | 553 | 5,722 |
| Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyhoeddus | Mr Rh Griffiths | 47 | 47,055 | 1,351 | 11,661 |
| Cyfarwyddwr Cyllid | Mr DH Michael | 37 | 38,910 | 450 | 1,368 |
| Ceidwad Mapiau a Phrintiau dros dro (dyrchafiad mewnol hyd at 18 Ionawr 2002) | Mr D M Francis | 54 | 44,429 | 1,184 | 14,067 |

Talodd y Llyfrgell hefyd danysgrifiad proffesiynol Cyfarwyddwr y Weinyddiaeth a Gwasanaethau Technegol i Gymdeithas y Gyfraith, sef £710. Nid oedd budd-daliadau eraill yn daladwy.

(c ) Cynhwysai cyflog y Llyfrgellydd gyflog cyfun o £55,657 (2000-01: £54,036) a dyfarniad anghyfun o £3,421 (2000/01: £2,569). Mae uwch staff eraill yn cael cyflog gros yn unig. Cyflogir y Llyfrgellydd ar gontract cyfnod penodol pum mlynedd o 1 Hydref 1998 i 30 Medi 2003. Mae'n aelod arferol o gynllun pensiwn y Llyfrgell.

Nifer y staff a gyflogwyd gan y Llyfrgell ar gyfartaledd bob mis yn ystod y flwyddyn:

| | **2001/02** | 2000/01 |
|---|---|---|
| Staff Swyddfa a Rheolwyr | **24** | 25 |
| Staff curadurol ac eraill | **217** | 202 |
| | **241** | 227 |

Nid yw aelodau'r Llys a'r Cyngor yn cael unrhyw gyflog. Roedd cyfanswm y costau teithio, cynhaliaeth a llety a wariodd y Llyfrgell ar gyfer ei aelodau pwyllgor yn £12,133 (2000-01 £27,296), a hawliodd gan 22 o aelodau.

(d) **Pensiynau**

Gweithreda'r Llyfrgell gynllun budd-dâl diffiniedig sy'n darparu budd-daliadau wedi eu seilio ar gyflog terfynol pensiynol ar oed 60, yr oed ymddeol arferol. Mae'r aelodau'n talu cyfraniadau o 6% o'r enillion pensiynadwy. Bydd yr aelodau hynny sy'n gadael y cynllun sydd wedi cyfrannu am gyfnod o lai na 2 flynedd yn derbyn ad-daliad o'u cyfraniadau. Mae'r buddion yn cronni ar gyfradd o 1 rhan o 80 o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, mae swm un-taliad, sydd yn cyfateb i bensiwn 3 blynedd, yn daladwy adeg ymddeol. Os yw'r aelod yn marw, mae'r pensiwn yn daladwy i'r cymar byw ar gyfradd o hanner pensiwn yr aelod. Os bu farw tra'n gweithio mae'r cynllun yn talu budd un-taliad. Mae ymddeoliad am resymau meddygol yn bosib os ceir salwch difrifol.

Cedwir asedau'r Cynllun ar wahân i rai'r Llyfrgell ac fe'u buddsoddir gyda Prudential Pensions Cyf. mewn Cynllun Rheoledig. Cyflawnwyd y prisiant diweddaraf hyd at 31 Mawrth 1999. Yn dilyn yr adroddiad actiwaraidd, o 1 Ebrill 2000 cyfrennir 6% gan y Llyfrgell fel cyflogydd ynghyd â 6% ychwanegol gan y staff. Cyhoeddir datganiad yr actiwari gyda Chyfrifon Blynyddol y Gronfa Bensiwn.

Y gost bensiynol am y cyfnod oedd £221,116 (2000-01 £202,160). Dangoswyd yn ôl prisiant diweddaraf yr actiwari mai £25.654m oedd gwerth marchnadol asedau'r Cynllun, ac nad oedd gwerth yr actiwari o'r asedau hynny yn rhagor na 105% o werth rhwymedigaethau'r Cynllun.

(e) **Cofrestr Anrhegion**

Mae'r Llyfrgell hefyd yn rhedeg cofrestr anrhegion. Ni chredir bod unrhyw eitem a nodwyd yn ystod y flwyddyn o fudd materol i'r datganiadau ariannol hyn.

## 7. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL

| | Tir ac Adeiladau Rhydd-ddaliadol | Offeriant, Celfi Gosod a Chyfarpar | Is-Gyfan-swm | Cas-gliadau | Cyfan-swm |
|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Gwerth a Phrisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2000 | 40,478 | 2,837 | 43,315 | - | 43,315 |
| Ychwanediadau | 681 | 656 | 1,337 | 562 | 1,899 |
| Ailbrisiad | 911 | (502) | 409 | - | 409 |
| Ar 31 Mawrth 2002 | 42,070 | 2,991 | 45,061 | 562 | 45,623 |
| | | | | | |
| Dibrisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 579 | 1,226 | 1,805 | - | 1,805 |
| Darparwyd ar gyfer y flwyddyn | 602 | 720 | 1,322 | - | 1,322 |
| Ailbrisiad | (1,181) | (400) | (1,581) | - | (1,581) |
| Ar 31 Marwth 2002 | - | 1,546 | 1,546 | - | 1,546 |
| | | | | | |
| Gwerth Llyfr Net | | | | | |
| **Ar 31 Marwth 2002** | **42,070** | **1,445** | **43,515** | **562** | **44,077** |
| Ar 1 Ebrill 2001 | 39,898 | 1,611 | 41,509 | - | 41,509 |

Cafodd adeiladau a thir ac offer rhydd-ddaliadol y Llyfrgell sydd â Gwerth Llyfr Net o £5,000 neu fwy eu prisio'n broffesiynol ar 31 Mawrth 2002 gan Cooke ac Arkwright, Syrfewyr Siartredig, yn unol â Llawlyfr Gwerthuso a Phrisio Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Prisiwyd tir ac adeiladau ar sail eu "gwerth ar y farchnad agored", "gwerth defnydd presennol" neu "gost

ddadbrisiedig adnewyddu". Prisiwyd yr offer ar sail ei werth i'r Llyfrgell. Cyfalefir pryniannau i'r casgliad ar sail cost hanesyddol. Defnyddiwyd pob ased sefydlog i hyrwyddo gweithgareddau elusennol y Llyfrgell.

## 8. CRONFEYDD PREIFAT

| | Anghyfyngedig | Cyfyngedig | **Cyfanswm 2001/02** | Cyfanswm 2000/01 |
|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | **£000** | £000 |
| **Adnoddau a Dderbyniwyd** | | | | |
| Cymynroddion | 169 | - | **169** | 2 |
| Ystadau Prifysgol Cymru | 110 | - | **110** | 56 |
| Arall | - | 2 | **2** | 6 |
| | 279 | 2 | **281** | 64 |
| Llog a Dderbyniwyd | 239 | 29 | **268** | 294 |
| Elw / (colled) ar werthu buddsoddiadau | 86 | 10 | **96** | (27) |
| | 325 | 39 | **364** | 267 |
| **Cyfanswm** | 604 | 41 | **645** | 331 |
| **Adnoddau a Wariwyd** | | | | |
| Casglu a Storio | 231 | - | **231** | 356 |
| Marketing, ex, ed | 5 | 23 | **28** | 29 |
| Conservation | 31 | - | **31** | 13 |
| Fundraising | 1 | - | **1** | 1 |
| Management | 2 | - | **2** | 8 |
| **Cyfanswm** | 270 | 23 | **293** | 407 |
| **Adnoddau Net a Dderbyniwyd/(Gwariwyd)** | 334 | 18 | **352** | (76) |
| Trosglwyddiad i Gronfeydd Cyhoeddus | (11) | - | **(11)** | (279) |
| | 323 | 18 | **341** | (355) |
| Colledion nas gwireddwyd ar ail-brisio buddsoddiau | (238) | (21) | **(259)** | (159) |
| **Symudiad Net yn y Cronfeydd Preifat yn ystod y flwyddyn** | 85 | (3) | **82** | (514) |
| Dygwyd ymlaen ar 1 Ebrill | 4,875 | 584 | **5,459** | 5,973 |
| **I'w dwyn ymlaen ar 31 Mawrth** | 4,960 | 581 | **5,541** | 5,459 |

Dangosir dadansoddiad o'r cronfeydd unigol ar dudalen 32.

Yn ystod 2001/02 derbyniwyd cymynroddion sylweddol, un gan Gwendolen Edwards am £109,000 ac un arall am £56,000 gan WCW James. Mae'r ddau gymunrodd hyn yn rhai sydd heb eu cyfyngu.

## 9. BUDDSODDIADAU

| | **2001/02** | 2000/01 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gwerth Marchnadol ar 1 Ebrill | **5,407** | 5,936 |
| Ychwanegu Caffaeliad ar Gost | **1,646** | 1,244 |
| Llai: derbyniadau ar werthiant | **(2,684)** | (1,587) |
| Ennill ar werthiant | **96** | (27) |
| Ennill / (Colled) nas gwiredd ar ailbrisiad | **(259)** | (159) |
| **Gwerth Marchnadol ar 31 Mawrth** | **4,206** | 5,407 |

Roedd cost hanesyddol Buddsoddiadau ar 31 Mawrth 2002 £4.765m (2000-01 £5.707m). Delir a'r buddsoddiadau rhestredig yng Nghyfnewidfa Stoc Llundain.
Giltiau'r Trysorlys yw 22% o'r portffolio. Bondiau tramor gyda Banc Buddsoddi Ewrop yw 15% ohonynt a bondiau tramor gyda'r Banc Ailadeiladu a Datblygu Rhyngwladol a'r Gorfforaeth Cyllid Ryngwladol yw 7%, a hynny ar 31 Mawrth 2002.
Nid oes yr un buddsoddiad arall yn fwy na 5% o'r portfolio. O'r gwerth ar y farchnad o £4.206m, cedwid £1.891m mewn buddsoddiadau ystod culach, a £2.315m mewn ystod ehangach.
Ar 31ain Gorffennaf 2002 gwerth y buddsoddiadau oedd £3.884m.

## 10. ASEDAU CYFREDOL - BUDDSODDIADAU

| | **31 Mawrth 2002** | 31 Mawrth 2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Gyfrif Arian Adnau'r Broceriaid | **1,334** | 51 |
| | **1,334** | 51 |

Y gyfradd llog a oedd yn daladwy ar Gyfrif Arian Adnau'r Broceriaid ar 31ain Mawrth 2002 oedd 3%.

## 11. DYLEDWYR – dyledus o fewn blwyddyn

| | **31 Mawrth 2002** | 31 Mawrth 2001 |
|---|---|---|
| | **£000** | £000 |
| Dyledwyr Masnachol | **317** | 123 |
| Blaendaliadau ac Incwm Cronedig | **117** | 86 |
| Capital | **64** | - |
| Blaendal y Gronfa Bensiwn | **95** | 57 |
| Cronfeydd Preifat | **34** | 24 |
| | **627** | 290 |

## 12. CREDYDWYR – i'w talu o fewn blwyddyn

| | **31 Mawrth 2002 £000** | 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|---|
| Credydwyr Masnachol | **160** | 47 |
| Credydwyr Eraill | **21** | 2 |
| Croniadau | **25** | 43 |
| Trethi ac Yswiriant Gwladol | **91** | 97 |
| | **297** | 189 |

## 13. SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD

| | Ar Ebrill 2001 £000 | Mewnlif Adnoddau £000 | Adnoddau a Wariwyd £000 | Sumudiadau eraill yn ystod y flwyddyn £000 | **Ar 31 Mawrth 2002 £000** |
|---|---|---|---|---|---|
| **CRONFEYDD CYHOEDDUS** | | | | | |
| Cyfyngedig - Cyfalaf | 41,580 | 1,276 | (1,322) | 2,002 | **43,536** |
| - Pryniant | (1) | 576 | - | - | **575** |
| Cyfanswm Cyfyngedig | 41,579 | 1,852 | (1,322) | 2,002 | **44,111** |
| Anghyfyngedig | (123) | 6,534 | (8,984) | 2,567 | **(6)** |
| **Cyfanswm Cronfeydd Cyhoeddus** | 41,456 | 8,386 | (10,306) | 4,569 | **44,105** |
| **CRONFEYDD PREIFAT** | | | | | |
| Cyfyngedig | 584 | 31 | (23) | (11) | **581** |
| Anghyfyngedig | 4,875 | 518 | (270) | (163) | **4,960** |
| Cyfanswm Cronfeydd Preifat | 5,459 | 549 | (293) | (174) | **5,541** |
| **CYFANSWM** | **46,915** | **8,935** | **(10,599)** | **4,395** | **49,646** |

## 14. YMRWYMIADAU CYFALAF

Mae gan y Llyfrgell Raglen Cyfalaf Dreigl dros bedair blynedd. Ar ddyddiad y fantolen, y mae'r ymrwymiadau sy'n weddill fel y ganlyn:

| | **31 Mawrth 2002 £000** | 31 Mawrth 2001 £000 |
|---|---|---|
| Dan gytundeb | **1,566** | 559 |
| Wedi'u hawdurdodi ond heb fod dan gytundeb | **-** | 235 |
| | **1,566** | 794 |

Disgwylir y bydd pob ymrwymiad hyd at 31 Mawrth 2002 yn daladwy yn ystod y blwyddyn ariannol 2002/03.

## 15. CYSONI GWARGED GWEITHREDU Â LLIF ARIAN NET O WEITHGAREDDAU GWEITHREDOL

| | 2001/02<br>£000 | 2000/01<br>£000 |
|---|---|---|
| Adnoddau net a dderbyniwyd/(wariwyd) ar gyfer y flwyddyn ariannol | **903** | 190 |
| Dibrisiant | **1,322** | 1,110 |
| (Cynnydd)/Lleihâd mewn dyledwyr | **(337)** | (80) |
| Cynnydd mewn credydwyr a darpariaeth | **68** | 39 |
| | **1,956** | 1,259 |

## 16. GWARIANT CYFALAF Â BUDDSODDIADAU ARIANNOL

| | 2001/02<br>£000 | 2000/01<br>£000 |
|---|---|---|
| Talidau i gaffael asedau sefydlog diriaethol | **(1,337)** | (1,689) |
| Taliadau i gaffael | **(562)** | - |
| Talidau i gaffael buddsoddiadau | **(1,646)** | (1,244) |
| Arian a gafwyd wrth werthu asedau sefydlog diriaethol | **-** | 10 |
| Derbyniadau o werthu buddsoddiadau | **2,684** | 1,587 |
| | **(861)** | (1,336) |

## 17. CYSONI LLIF ARIAN NET Â SYMUDIADAU MEWN CRONFEYDD NET

| | 2001/02<br>£000 | 2000/01<br>£000 |
|---|---|---|
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | **63** | 140 |
| Mewn-lif/(All-lif) arian net | **(188)** | (91) |
| Cynnydd/(Lleihâd) mewn buddsoddiad asedau cyfredol | **1,283** | 14 |
| Crofeydd net ar 31 Mawrth | **1,158** | 63 |

## 18. TRAFODION Â CHYRFF PERTHYNOL

Ystyrir Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn barti perthynol. Yn ystod y flwyddyn derbynia'r Llyfrgell arian gan y Cynulliad, ar ffurf Grant Cynnal, Grant Pwrcasu a Grant Cyfalaf.

Derbyniodd y Llyfrgell £21,000 yn 2001/02 (2000/01: £20,000) gan Brifysgol Cymru i wneud cyfraniad i Uned Gydymffurfio S4C seiliedig ar ymarfer arolygu ddi-baid a chyngor ymgynghorwyr annibynnol. Mae Mrs Elan Closs Stephens, sy'n aelod o Gyngor a Llys Llywodraethwyr y Llyfrgell, yn Ddarlithydd Uwch yn y Brifysgol.

## 19. DARPARIAETH

| | Darpariaeth ar gyfer Ailstrwythuro | Darpariaeth ar gyfer Costau Pensiwn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 |
| 1af Ebrill 2001 | 25 | 140 | 165 |
| Darparwyd yn y fflwyddyn | - | - | - |
| Llai: defnyddiwyd | - | (15) | (15) |
| : ysgrifenwyd yn ôl* | (25) | - | (25) |
| 31ain Mawrth 2002 | **-** | **125** | **125** |

*Sefydlwyd darpariaeth yn 2000/01 i dalu am gost ddisgwyliedig gwasanaethau adnoddau dynol ychwanegol i oruchwylio rhaglen ad-drefnu'r Llyfrgell. Fel y digwyddodd, llwyddodd rheolwr Adnoddau Dynol y Llyfrgell ei hun i reoli'r broses hon.

## 20. DEILLIADAU – FRS13

Nid oes gan y Llyfrgell ddim benthyciadau ac mae'n dibynnu'n bennaf ar grantiau adrannol ar gyfer ei ofynion ariannol ac felly nid yw'n agored i risgiau o ran hylifedd. Datgelir yr unig adnau sylweddol yn nodyn 10, ac mae pob ased a chyfrifoldeb sylweddol mewn sterling, felly, nid ydynt yn agored i risg sy'n gysylltiedig â'r gyfradd llog neu ag arian bath.
Yn 2001/02, deilliodd £7.839m neu 88% o incwm y Llyfrgell o Gymorth Grant gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru (2000/01 £7.521m neu 87%). Daw'r gweddill, £1.096m neu 12% o incwm ar gronfeydd preifat y Llyfrgell a hefyd o weithgareddau masnachu (2000/01 £1.120m neu 13%).

## 21. DATGELIAD FRS17

Mae'r ffigurau a ddefnyddir yn y cyfrifon hyn ar gyfer cost pensiynau'n cydymffurfio gyda'r safon cyfrifo cost pensiynau cyfredol, sef Safon Ymarfer Cyfrifo Datganiadau 24. Cyhoeddwyd safon cyfrifo cost pensiynau newydd, sef FRS 17, ond ni fydd hwnnw ar waith yn llwyr tan 2003/04. Yn y cyfamser, rhaid i'r Llyfrgell ddatgelu'r wybodaeth a ganlyn am y cynllun a'r ffigurau a ddangosasid yn y fantolen gyfredol dan FRS 17.

Mae gan y Llyfrgell gynllun budd-daliadau gyda buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/80$^{fed}$ o'r cyflog pensiynadwy ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Mae'r aelodau'n talu cyfraniadau ar gyfradd o 6% o'u cyflog pensiynadwy.

Gwnaeth yr actiwari ei brisiad llawn diweddaraf ar 31$^{ain}$ Mawrth 1999. Yn ystod y flwyddyn hyd at 31$^{ain}$ Mawrth 2002, bu'r Llyfrgell yn cyfrannu i'r Cynllun ar gyfradd o 6% o gyflogau pensiynadwy.

Dyma'r tybiaethau ariannol a wnaethpwyd yn y prisiad diweddaraf:

| | % y flwyddyn |
|---|---|
| Chwyddiant prisiau | 2.50 |
| Cyfradd cynnydd cyflogau | 4.50 |
| Cyfradd cynnydd mewn pensiynau a delir | 2.50 |
| Cyfradd cynnydd ar gyfer pensiynwyr gohiriedig | 2.50 |
| Cyfradd gostyngiad | 5.75 |

Pennwyd gwerth teg asedau'r cynllun fel a ganlyn:

| | £M |
|---|---|
| Ecwitïau, y DU a thramor | 19.37 |
| Bondiau, y DU a thramor | 3.64 |
| Eiddo | 0.93 |
| Arian ac asedau cyfredol net | 0.52 |
| **Cyfanswm** | **24.46** |

Cysonir asedau'r cynllun â'r fantolen fel a ganlyn:

| | £M |
|---|---|
| Gwerth teg asedau'r Cynllun | 24.46 |
| Gwerth actiwaraidd rhwymedigaethau'r Cynllun | (18.75) |
| Gwarged yn y Cynllun | 5.71 |
| Gwarged Anadferadwy | 0.00 |
| Ased cynllun pensiwn | 5.71 |

Pe cydnabyddid ased y cynllun pensiwn yn y datganiadau ariannol, byddai asedau net y Llyfrgell fel a ganlyn:

| | £000 |
|---|---|
| Asedau net ac eithrio gwarged y cynllun pensiwn | 49,646 |
| Gwarged y cynllun pensiwn | 5,710 |
| Asedau net gan gynnwys gwarged y cynllun pensiwn | 55,356 |

**22. PRYDLESI**

Yr ymrwymiad blynyddol dan brydlesi cyfredol yw £14,687 ar gyfer prydles sy'n dod i ben ymhen rhwng dwy a phum mlynedd. Mae'r swm hwn yn cael ei gynnwys yn y Datganiad Gweithgareddau Ariannol.